**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**10 Gorffennaf 2013**

**DIWEDDARIAD AR GOD YMDDYGIAD YR AELODAU**

**Adroddiad gan Gareth Owens, Dirprwy Glerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1. Rhoi gwybod i'r aelodau am y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad a'r union newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r canllawiau a gyhoeddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Cefndir**

2. Yn ddiweddar, cynigiwyd nifer o newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau er nad yw'r ddeddfwriaeth angenrheidiol wedi ei phasio eto er mwyn iddynt ddod i rym. Maent yn ymwneud â'r canlynol:-

   i) Paragraff 6(1)(c) o dan y rhwymedigaeth i'r aelodau i adrodd i'r Ombwdsmon ynghylch unrhyw bosibilrwydd o dorri'r Cod; a

   ii) 10(2)(b) buddiannau'n deillio o fusnes ward.

3. Ar hyn o bryd, mae rhwymedigaeth ar yr aelodau i adrodd i'r Swyddog Monitro ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch unrhyw beth y maent yn rhesymol yn ei gredu sy'n dorri'r Cod ar ran y tyst. Nid yn unig y mae hyn yn annog/hwyluso gorfodi'r Cod, ond mae hefyd yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad i'r aelodau os ydynt yn cyflwyno cwyn (oherwydd nad oedd ganddynt ddewis).

4. Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth leol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gyd wedi cefnogi proses o fynd ati'n lleol i ddatrys cwynion a wneir gan un aelod yn erbyn un arall. Daw'n gynyddol gyffredin i brif awdurdodau gael gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion bychain am ymddygiad, ond wrth gwrs, oherwydd y rhwymedigaeth hon yn y Cod, byddai defnyddio gweithdrefn ddatrys leol mewn gwirionedd yn golygu torri'r Cod. Felly, y bwriad yw diddymu'r rhwymedigaeth er mwyn galluogi'r aelodau i ddefnyddio gweithdrefn ddatrys leol heb dorri eu rhwymedigaethau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut y bydd y Cod yn effeithio ar gyrff megis yr Awdurdod Tân sydd heb weithdrefn ddatrys leol ac sy'n ymddangos, o ystyried nifer gyfredol y cwynion, heb fod angen un.

5. Mae paragraff 10(2)(b) yn datgan fel a ganlyn:

"(2) Rhaid ichi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef –

(b) pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol;"

6. Mewn gwirionedd, mae'n creu buddiant personol pan y gallai dyletswydd aelod i gynrychioli ei etholwyr wrthdaro â dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod y maent yn aelod ohono. Mae dehongli a chymhwyso'r ddarpariaeth hon wedi achosi rhywfaint o anhawster, nid yn unig oherwydd ei fod wedi ei eirio mewn ffordd debyg i'r prawf ar gyfer buddiant rhagfarnol. Felly, bu'n anodd i gynghorwyr ddatgan buddiant personol o dan y ddarpariaeth hon heb ddatgan buddiant rhagfarnol hefyd. Yn amlwg, petai cynghorydd yn datgan buddiant personol a bod canfyddiad o wrthdaro bob tro rhwng busnes ward a dyletswyddau i'r Awdurdod ar y cyfan, byddai cynghorwyr yn methu â chynrychioli eu hetholwyr. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig dileu'r rhwymedigaeth hon yn ei chyfanrwydd.

7. Yn ddiweddar hefyd, diweddarwyd y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad o ran y rhwymedigaeth i drin eraill â pharch. Y llynedd, bu dyfarniad yn yr Uchel Lys, sef "R (Calver) v Panel Dyfarnu Cymru", fod hawl cynghorydd i fynegiant gwleidyddol o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi ei dorri oherwydd dyfarniad ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad am fethu â thrin eraill â pharch. Roedd y Cynghorydd Calver wedi beirniadau cyd-gynghorwyr a'r clerc, ac i ddechrau dyfarnwyd ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad am wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y Llys o'r farn mai mynegi barn wleidyddol yr oedd mewn perthynas â'r clerc a'i gyd-gynghorwyr felly roedd dyfarnu ei fod wedi torri'r Cod yn torri ei hawliau dynol.

8. I ymateb, mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar yr adran hon o'r Cod, ac mae yn Atodiad 1.

9. Mae'r canllawiau diwygiedig yn ei gwneud yn glir mai'r sefyllfa yw fod rhywfaint o amddiffyniad i fynegiant, ond parheir i ystyried bod rhai ymddygiadau yn torri'r Cod.

**Argymhelliad**

10. Gwahoddir yr aelodau i nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Cod a'r newid diweddar i ganllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.